Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coetiroedd Gŵyr
Gower Woodlands

# Coed y Parc | Park Wood

## Parc ceirw hanesyddol sy'n llawn archaeoleg

**Ar un adeg roedd Coed y Parc yn barc ceirw canoloesol a oedd yn eiddo i deulu de Breos, Arglwyddi Gŵyr. Yma yn yr hen 'Parc de Breos' gallwch ddod o hyd i nifer o safleoedd archaeolegol sydd o bwys cenedlaethol.**

**Peth wmbredd o archaeoleg!**

Dyma gyfle i weld safleoedd archaeolegol difyr tu hwnt sy'n cwmpasu tua 14,000 o flynyddoedd, gan gynnwys siambr gladdu Neolithig, ogofâu ac odynau calch. Er mwyn dod o hyd iddynt gweler y map – ceir panel gwybodaeth ar bob safle.

**Coed hynafol iawn**

Mae Coed y Parc yn gartref i goed derw, ynn a chonwydd mawreddog, gan gynnwys rhai o blanhigfeydd hynaf de Cymru (coed derw, ynn a masarn a blannwyd ym 1851).

Mae'r goedwig hon yn bwysig hefyd oherwydd ei bywyd gwyllt a'i daeareg - mae'n rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a elwir yn Coedydd Ynn Gŵyr. Mae'n gartref i blanhigion pwysig a bwncathod yr uchelderau, cnocellod, delorion y cnau, ystlumod pedol lleiaf ac ystlumod pedol mwyaf a rhagor o fywyd gwyllt arbennig.

**Dyfodol mwy 'disglair' i Goed y Parc?**

Rydym wedi bod yn cael gwared o lecynnau bychain o gonwydd cymysg ac yn teneuo rhai o'r coed llydanddail er mwyn i fwy o olau gyrraedd llawr y coetir. O ganlyniad gall mwy o blanhigion a blodau dyfu yno. Coedlan o goed cyll a masarn sydd wedi bod yn cael ei rheoli yn y pen gogleddol yn draddodiadol (gyda'r coed yn cael eu torri i'r ddaear yn achlysurol ac yn aildyfu ar ffurf nifer o bolion defnyddiol) gyda choed derw ac ynn 'safonol' (coed mawr). Rydym hefyd yn tynnu rhywogaethau goresgynnol estron oddi yno, gan gynnwys rhododendron a llawrgeirios gan eu bod yn rhwystro planhigion eraill rhag tyfu.

## A historic deer park packed with archaeology

**Parkwood was once a medieval deer park of the de Breos, Lords of Gower. Here in the former 'Parc de Breos' you can discover a number of nationally important archaeological sites.**

**Archaeology galore!**

Experience some fascinating archaeological sites spanning some 14,000 years, including a Neolithic burial chamber, caves and limekilns. To find them see the map - each feature has an information panel nearby.

**Some very old trees**

Parkwood is home to majestic oak, ash and conifer trees and has some of the oldest plantations in South Wales (oak, ash and sycamore planted in 1851).

This wood is also important for its wildlife and geology – part of a Special Area of Conservation (SAC) known as the Gower Ash Woods. It's home to some important plants and soaring buzzards, woodpeckers, nuthatch, lesser and greater horseshoe bats and a wealth of other wildlife.

**A 'brighter' future for Parkwood?**

We have been removing small areas of mixed conifers and thinning out some broadleaved trees to allow more light to reach the woodland floor. This means more woodland plants and flowers can grow. The northern end of the woodland has historically been managed as hazel and sycamore coppice wood (where trees are periodically cut to the ground and regrow as useful as multi-stemmed poles) with oak and ash 'standards' (big trees). We are also removing non-native invasive species including rhododendron and cherry laurel as they stop other plants from growing.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022. OS 100019741 | © Crown copyright and database rights 2022. OS 100019741




## Coed Gŵyr a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol

Rydym ni'n gwarchod tri phrif safle ar Benrhyn Gŵyr – Coed y Parc (164 hectar), Coed y Felin (126 hectar) a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Oxwich (230 hectar).

## Gower Woods and National Nature Reserves

We look after three main places on the Gower – Park Wood (164 hectares), Mill Wood (126 hectares) and Oxwich National Nature Reserve (230 hectares).

## LLWYBR ODYN, OGOFÂU A CHARNEDD
## CAVES, CAIRN AND KILN WALK

**Hawdd**
**Cymedrol** os ydych yn ymweld â mynedfeydd ogofâu

**Easy**
**Moderate** if visiting cave entrances

Pellter cyfan | Total distance: 2½m | 4.2km
Amser cyfan | Total time: 1½ awr | hours

**Darganfyddwch siambr gladdu Neolithig, odyn galch a dwy ogof ar y daith gerdded hon.** Mae hwn yn llwybr gwastad oni bai eich bod yn dewis ymweld ag Ogof y Gath ac Ogof y Dannedd, Llethryd. Mae rhywfaint o gerrig rhydd ar y prif drac, llwybr garw i fyny at Ogof y Gath a llwybr mwdlyd, garw at Ogof y Dannedd, Llethryd. Mae paneli sy'n rhoi gwybodaeth am y safleoedd ar hyd y llwybr – yn cynnwys mân wyriadau oddi ar y prif lwybr. Gallwch gerdded rhan o Lwybr Gŵyr yn y coetir hwn hefyd neu ddilyn Hawliau Tramwy Cyhoeddus eraill.

**Discover a Neolithic burial chamber, a lime kiln and two caves along this walk.** This is a level walk except for optional visits to Cathole Cave and Llethryd Tooth Cave. There are some loose stones on the main track, a rough path uphill to Cathole Cave and an unmade-surface muddy path to Llethryd Tooth Cave. Information panels explain the features along the route – involving slight deviations off the main path. You can also walk a section of the Gower Way within this woodland or follow other Public Rights of Way.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

- parcio / parking
- parcio talu / pay parking
- ffin y warchodfa GNG / NNR reserve boundary
- ffin coed CNC / NRW wood boundary
- llwybr cyhoeddus / public footpath
- ffyrdd coedwig / forest roads
- lle picnic / picnic area
- llwybrau cerdded / walking trails
- heneb / ancient monument

Mae Llwybr Gŵyr yn 35 milltir (56km) o hyd, o Rosili yn ne-orllewin eithaf Penrhyn Gŵyr, draw i Benlle'r Castell yn ucheldir Mawr.

The Gower Way runs 35 miles (56km) from Rhossili at the extreme south-west of the Gower Peninsula, through to Penlle'r Castell in upland Mawr.

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**